

# Natur yn Sir Gaerfyrddin

## RHAN 4

### Cyfeiriadau ac Atodiadau

Mai 2020



## 4.1 Cyfeiriadau

1. Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru  
<https://bit.ly/2XXePji>
2. Datganiad Ardal De Orllewin Cymru  
<https://bit.ly/3eluzpB>
3. Cyngor Sir Caerfyrddin – Amcanion Lles 2017/18.  
<https://bit.ly/2XXr48P>
4. Cynefinoedd Blaenoriaeth yn Sir Gaerfyrddin.  
<https://bit.ly/2S2qXF5>
5. Gwrychoedd yn Sir Gaerfyrddin.  
<https://bit.ly/2VS0taA>
6. Rhywogaethau Blaenoriaeth yn Sir Gaerfyrddin.  
<https://bit.ly/3axsc5I>
7. Safleoedd dynodedig yn Sir Gaerfyrddin.  
<https://bit.ly/3axJdM>
8. Priority Habitats of Wales – a technical guide. 2003.  
Gol. P.S. Jones, D.P. Stevens, T.H. Blackstock, C.R. Burrows & E.A. Howe. Cyngor Cefn Gwlad Cymru.
9. Adroddiad Gwarchod Gloynnod/CNC - adroddiad. The Status of the Marsh Fritillary in Wales: 2018.  
<https://bit.ly/3cKzJzD>
- 9A Tirlyn Pant-y-llyn.  
<https://bit.ly/3cJwsAG>
10. Adroddiad CNC ar statws a dosbarthiad Chwilen y Draethlin.  
<https://bit.ly/2x0pisk>
11. Prosiect Corsydd Sir Gaerfyrddin.  
<https://bit.ly/2Y0CM2m>
12. Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru – Rhywogaethau Estron Goresgynnol:  
<https://bit.ly/2xJUVXI>
13. Erthygl papur newydd y Guardian 12 Mawrth 2018 'What is biodiversity and why does it matter to us?:  
<https://bit.ly/3eMjq6W>
14. Tudalennau bioamrywiaeth ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.  
<https://bit.ly/2x0rJes>
15. Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Pryfed Peillio.  
<https://bit.ly/2x0Lm6a>
16. Gwefan Cyngor Sir Caerfyrddin.  
<https://bit.ly/2Y5kEnU>
17. IPBES Global Assessment Report on biodiversity and ecosystem services.  
<https://www.ipbes.net/>
18. State of Nature Report 2019.  
<https://bit.ly/2x29yFp>
19. Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol 2016.  
<https://bit.ly/2x4BdWc>
20. Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol 2016. Pennod 2. Deall yr hyn sy'n sbarduno newid.  
<https://bit.ly/3eCSK8K>
21. Newidiadau a gofnodwyd yn Hinsawdd Cymru.  
<https://bit.ly/2KuiOoF>
22. Biodiversity Climate Change Impacts 2015.  
<https://bit.ly/3eJ0F4I>
23. Impacts of Agricultural Change on Farmland.  
<https://bit.ly/3cHfHpK>

24. Llywodraeth Cymru'n datgan argyfwng hinsawdd.
25. Cyngor Sir Caerfyrddin yn datgan argyfwng hinsawdd.  
<https://bit.ly/2VtrlPa>
26. Cyd-Bwyllgor Cadwraeth Natur – Bioamrywiaeth a Newid Hinsawdd.  
<http://jncc.defra.gov.uk/page-5145>
27. England Biodiversity Strategy. Climate Change Adaptation Principles - Conserving biodiversity in a changing climate.  
<https://bit.ly/2zozoEk>
28. Sefyllfa Byd Natur: Cymru 2019.  
<https://nbn.org.uk/stateofnature2019/>
29. Partneriaeth Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru.  
<https://midwalesredsquirrels.org/about-us/>
30. Prosiect Britheg y Gors Caeau'r Mynydd Mawr.  
<https://bit.ly/2XZBu7Y>
31. Blaengynllun 2017 Cyngor Sir Caerfyrddin.  
<https://bit.ly/3araf8F>
32. Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.  
<https://www.biodiversitywales.org.uk/>
33. Y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol.  
<https://bit.ly/2S0BGA6>
34. Towards living in harmony with nature by 2050.  
<https://bit.ly/2KtcZb6>
35. Strategic Plan for Biodiversity 2011-20, including the Aichi Biodiversity Targets.  
<https://www.cbd.int/sp/>
36. Sefyllfa Byd Natur.  
<https://bit.ly/2XWqpEr>

## Atodiad 1 - Crynodeb o Bolisi a Deddfwriaeth

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae a wnelo Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrrff cyhoeddus yn y Ddeddf i gynnal gwaith datblygu cynaliadwy. Er mwyn gwneud hyn, mae angen i gyrrff cyhoeddus weithio tuag at y saith nod llesiant canlynol:

- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth, gan gyfeirio'n benodol at gydnerthedd ecolegol
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Rhaid i'r holl gyrrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf sefydlu a chyhoeddi amcanion lles gyda datganiad i gyd-fynd â nhw a chymryd pob cam rhesymol i fodloni'r amcanion hynny. Mae'r Ddeddf hefyd wedi sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Eu rôl yw gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardal trwy gryfhau cydweithio ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn berthnasol i sawl aelod o Bartneriaeth Natur Lleol Sir Gaerfyrddin, ond nid i bob un ohonynt. Fodd bynnag, mae egwyddorion y Ddeddf yn berthnasol i bopeth yr ydym yn ceisio'i gyflawni trwy gynllun gweithredu lleol.

### Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn rhoi ar waith y ddeddfwriaeth angenrheidiol i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydlynol.

Mae Rhan 1 (mae chwe rhan arall) yn canolbwyntio ar y dull rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'r ddyletswydd ehangach ar fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau gysylltiedig.

#### (i) Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau

Cyflwynodd Adran 6 dan Ran 1 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ddyletswydd ehangach ar fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau (Dyletswydd Adran 6) ar gyfer cyrrff cyhoeddus. Mae'r ddyletswydd yn datgan bod rhaid i gyrrff cyhoeddus geisio **cynnal a gwella bioamrywiaeth** cyn belled ag sy'n gyson gan ymarfer eu swyddogaethau'n briodol ac, wrth wneud hynny, **hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau**. Mae hwn yn symudiad dwys sy'n ystyried nid yn unig rywogaethau a chynefinoedd ond sut mae ecosystemau'n gweithredu. Mae'n atgyfnerthu'r neges y bydd helpu natur i ffynnu'n gofyn am weithredu unedig gan ystod o sefydliadau yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a chyrrff eraill y llywodraeth, yn ogystal â busnesau sy'n cael eu rheoleiddio.

#### ((ii) Fframwaith Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol

<http://www.assembly.wales/research%20documents/19-002%20-%20smnr/19-002%20-%20web%20-%20english.pdf>

20english.pdf

Mae hwn yn gosod dull Cymru o gynllunio a rheoli adnoddau naturiol ar lefel genedlaethol a lleol gyda diben cyffredin sy'n gysylltiedig ag egwyddorion Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol (RhCAN): 'gan ddefnyddio adnoddau naturiol\* mewn ffordd, ac ar gyfradd, sy'n cynnal ac yn gwella cydnerthedd ecosystemau a'r manteision a ddarperir ganddynt.'

Mae Adran 4 Deddf yr Amgylchedd yn cyflwyno naw egwyddor i helpu i arwain a chynnal y ffordd y dylid dehongli'r RhCAN i sicrhau dull cyson ar gyfer RhCAN ledled Cymru:

- **Modd ei addasu** – angen cynllunio, monitro, adolygu a newid gwaith i'r dyfodol yng ngoleuni tystiolaeth a dealltwriaeth newydd;
- **Graddfa** – bydd angen gwneud penderfyniadau a chymryd camau ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol neu leol er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau;
- **Cydweithio** – mae pawb yng Nghymru'n rhanddeiliaid yn yr amgylchedd naturiol ac felly, er mwyn sicrhau'r rheolaeth orau ar adnoddau naturiol, mae angen ystyried yr holl safbwyntiau;
- **Ymgysylltu â'r cyhoedd** - sicrhau bod y cyhoedd yn cael cyfle i roi barn ar y ffordd y rheolir adnoddau naturiol, ar bob cam o'r broses gwneud penderfyniadau;
- **Tystiolaeth** – mae angen sail dystiolaeth well i ddeall adnoddau naturiol Cymru er mwyn caniatáu ar gyfer gwell rheolaeth;
- **Deall yr holl fanteision a gafwyd o adnoddau naturiol** – mae angen i Gymru gyfan ddeall gwerth economaidd, cymdeithasol,

[\*yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) – anifeiliaid, planhigion ac organebau eraill; aer, dŵr a phridd; mwynau; nodweddion a phrosesau daearegol; nodweddion ffisiograffigol, nodweddion a phrosesau hinsoddol.]

diwylliannol ac amgylcheddol adnoddau naturiol, gan gynnwys sut gallant fod o fantais i genedlaethau'r dyfodol;

- **Tymor hir** – mae angen ystyried effeithiau penderfyniadau nid yn unig yn y tymor byr ond yn y tymor hir hefyd;
- **Atal** – cymryd camau i atal difrod i ecosystemau Cymru; a
- **Chydnherthedd** – er mwyn gallu delio â'r gofynion a'r pwysau cynyddol, fel newid hinsawdd, mae angen i ecosystemau Cymru fod yn iach. Mae angen i benderfyniadau gael eu hystyried o ran darparu manteision tymor hir.

Mae tair prif gydran i'r fframwaith RhCAN cysylltiedig:

### Rhan 1: Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol 2016

<https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/the-state-of-natural-resources-report-assessment-of-the-sustainable-management-of-natural-resources/?lang=cy>

Mae'r Adroddiad (a luniwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru, CNC) yn gosod cyflwr adnoddau naturiol Cymru. Mae'n asesu i ba raddau y mae adnoddau naturiol Cymru'n cael eu rheoli'n gynaliadwy, ac yn argymhell dull rhagweithiol o fagu cydnherthedd. Am y tro cyntaf, mae'r Adroddiad yn cysylltu cydnherthedd adnoddau naturiol Cymru â lles pobl Cymru.

### Rhan 2: Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru (NRP) 2017

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/polisi-adnoddau-naturiol-cenedlaethol.pdf>

Mae'r polisi a luniwyd gan Lywodraeth Cymru'n gosod y blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Ystyria'r Polisi

ganfyddiadau'r Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol.

Ffocws y Polisi yw rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd gynaliadwy, er mwyn gwneud y mwyaf o'u cyfraniad at gyflawni'r nodau yn **Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**. Mae'r polisi'n gosod y tair **Blaenoriaeth Genedlaethol** ganlynol:

- cyflawni atebion seiliedig ar natur,
- cynyddu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd adnoddau,
- cymryd dull seiliedig ar leoedd.

### Rhan 3: Datganiadau Ardal

<https://naturalresources.wales/about-us/area-statements/?lang=cy>

Gwnaeth Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 hi'n ddyletswydd i Gyfoeth Naturiol Cymru lunio Datganiadau Ardal.

Bydd datganiadau Ardal yn helpu i gydlynu gwaith CNC a gwaith cyrff eraill, er mwyn magu cydnherthedd ein hecosystemau a gwella'r manteision a roddant i ni.

Byddant yn dwyn ynghyd data, gwybodaeth a ffyrdd o ymgysylltu â phobl eraill i helpu i ddeall yn well gyflwr a thueddiadau adnoddau naturiol mewn ardal, y pwysau arnynt a'u manteision.

Bydd Datganiadau Ardal yn gosod tystiolaeth ar yr adnoddau naturiol sydd ar waith, y manteision y gallant eu darparu, ac o hyn, nodi'r cyfleoedd i weithredu'r Polisi Adnoddau Naturiol, er mwyn iddynt allu parhau i gyflwyno manteision nawr ac yn y dyfodol.

Maen nhw'n gyfle i ailfeddwl y ffordd y rheolwn ac y defnyddiwn ein hadnoddau naturiol, a dylunio'n gydwethredol atebion newydd i'r


heriau cymdeithasol ac amgylcheddol mawr a wynebwn.

Bydd Datganiadau Ardal yn trosi'r blaenoriaethau strategol lefel uchel wrth ystyried angen lleol, cyfleoedd a phwysau. Bydd proffil ardal yn nodi cyfleoedd a blaenoriaethau posibl ar lefel leol a chyfleoedd cydweithredu posibl i wahanol gyffwrdd weithio.

Dynododd CNC anghydraddoldebau iechyd, rheolaeth o dir gwledig, bioamrywiaeth ar drai a newid hinsawdd fel problemau oedd yn ofid penodol yn ardal y de-orllewin.

Mae Sir Gaerfyrddin o fewn Datganiad Ardal De Orllewin Cymru ar y cyd â Sir Benfro, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Dylai unrhyw gynllun i weithredu er bioamrywiaeth ar gyfer Sir Gaerfyrddin lywio, a chael ei lywio, gan y Datganiad Ardal Lleol.

### Datganiad Ardal yng Nghymru:



## Atodiad 2. Cynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth Adran 7 a gofnodwyd yn Sir Gaerfyrddin

### CYNEFIN BRAS

### CYNEFIN Â BLAENORIAETH

<b>Arfordirol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Graean Bras Arfordirol â Llystyfiant</li> <li>• Morfeydd heli arfordirol</li> <li>• Twyni tywod arfordirol</li> <li>• Clogwyn a llethr morol</li> </ul>
<b>Safleoedd tir llwyd, Gerddi a Lleoedd agored trefol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynefinoedd brith agored ar dir a ddatblygwyd yn flaenrol (tir llwyd)</li> <li>• Gerddi a rhandiroedd</li> <li>• Lle agored trefol</li> </ul>
<b>Cynefinoedd ffermdir</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwrychoedd</li> <li>• Ymylon caeau âr</li> <li>• Perllannoedd traddodiadol</li> </ul>
<b>Cynefinoedd dŵr croyw</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Afonydd</li> <li>• Llynnoedd oligotroffig a dystroffig</li> <li>• Llynnoedd mesotroffig</li> <li>• Cyrff dŵr naturiol anwadal sy'n tarddu o ddyfrhaen</li> <li>• Pyllau</li> </ul>
<b>Glaswelltir a rhostir yr iseldir</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhostir yr iseldir</li> <li>• Dolydd yr iseldir</li> <li>• Glaswellt y gweunydd a phorfeydd brwyn</li> <li>• Glaswelltir asid sych yr iseldir</li> <li>• Ymylon ffyrdd*</li> <li>• Tiroedd claddu a mynwentydd eglwysi a chapeli*</li> </ul>
<b>Ucheldiroedd</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhostir yr ucheldir</li> <li>• Gorgors</li> <li>• Allfrigiad creigiog mewndirol a chynefinoedd sgri</li> <li>• Tir gwlyb, ffen a mignenni'r ucheldir</li> </ul>
<b>Gwlyptiroedd</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyforgors yr iseldir</li> <li>• Cors bori ar arfordir a gorlifdir</li> <li>• Corsleoedd</li> </ul>
<b>Coetiroedd</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Coed pori a thir parc</li> <li>• Coedlan dderi'r ucheldir</li> <li>• Coetir ynn cymysg yr ucheldir</li> <li>• Coetir gwlyb</li> <li>• Coetiroedd collddail cymysg yr iseldir</li> </ul>
<b>Morol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Fflatiau llaid rhynglanwol</li> <li>• Gwelyau morwellt</li> <li>• Morfa heli arfordirol</li> <li>• Mawn a chlai yn y golwg</li> <li>• Tywod a graean islanwol</li> <li>• Lagwnau heli</li> <li>• Gwelyau cregyn gleision</li> <li>• Cymunedau meini mawr rhynglanwol?</li> <li>• Graean lleidiog cysgodol?</li> </ul>

\*Cynefin blaenoriaeth lleol

## Rhywogaethau Adran 7 yn Sir Gaerfyrddin

DS. Mae'r rhestr hon yn seiliedig ar gofnodion rhywogaethau Sir Gaerfyrddin a groesgyfeirir at restr Adran 7. Nid yw absenoldeb cofnodion o reidrwydd yn dynodi absenoldeb rhywogaethau yn y sir (Cynhyrchwyd gyda chymorth Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru a chofnodwyr sirol lleol). Gellir troi at restrau llawn o rywogaethau a chynefinoedd dan Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016) fan hyn: <https://www.biodiversitywales.org.uk/Environment-Wales-Bill>

Amffibiad	
Llyffant dafadennog	Bufo bufo
Adar	
Rhostog Gynffonfraith	<i>Limosa lapponica</i>
Alarch Bewick	<i>Cygnus columbianus</i>
Aderyn y Bwn	<i>Botaurus stellaris</i>
Gwylan Benddu	<i>Chroicocephalus ridibundus</i>
Coch y Berllan	<i>Pyrrhula pyrrhula</i>
Brân Goesgoch	<i>Pyrrhocorax pyrrhocorax</i>
Môr-hwyaden Ddu	<i>Melanitta nigra</i>
Cw cw	<i>Cuculus canorus</i>
Gylfinir	<i>Numenius arquata</i>
Gŵydd Ddu Siberia	<i>Branta bernicla subsp. bernicla</i>
Llwyd y Gwrych	<i>Prunella modularis</i>
Cwtiad Aur	<i>Pluvialis apricaria</i>
Troellwr Bach	<i>Locustella naevia</i>
Gylfinbraff	<i>Coccothraustes coccothraustes</i>
Boda Tinwyn	<i>Circus cyaneus</i>
Gwylan y Penwaig	<i>Larus argentatus</i>
Aderyn y To	<i>Passer domesticus</i>
Cudyll Coch	<i>Falco tinnunculus</i>
Cornchwiglen	<i>Vanellus vanellus</i>
Llinos Bengoch Fach	<i>Carduelis cabaret</i>
Y Gnocell Fraith Leiaf	<i>Dendrocopos minor</i>
Llinos	<i>Linaria cannabina</i>
Titw'r Wern	<i>Poecile palustris</i>
Troellwr	<i>Caprimulgus europaeus</i>

Gwybedog Brith	<i>Ficedula hypoleuca</i>
Bras y Cyrs	<i>Emberiza schoeniclus</i>
Mwyalchen y Mynydd	<i>Turdus torquatus</i>
Cwtiad Torchog	<i>Charadrius hiaticula</i>
Môr-wennol Wridog	<i>Sterna dougallii</i>
Ehedydd	<i>Alauda arvensis</i>
Y Fronfraith	<i>Turdus philomelos</i>
Gwybedog Mannog	<i>Muscicapa striata</i>
Drudwen	<i>Sturnus vulgaris</i>
Corhedydd y Coed	<i>Anthus trivialis</i>
Golfan y Coed	<i>Passer montanus</i>
Turtur	<i>Streptopelia turtur</i>
Titw'r Helyg	<i>Poecile montana</i>
Telor y Coed	<i>Phylloscopus sibilatrix</i>
Siglen Felen	<i>Motacilla flava</i>
Bras Melyn	<i>Emberiza citrinella</i>
Tylluan Wen*	<i>Tyto alba</i>
Cwtiad Torchog Bach*	<i>Charadrius dubius</i>
Planhigion	
Dinodd Unflwydd	<i>Scleranthus annuus</i>
Gwenynog	<i>Melittis melissophyllum</i>
Penigan y Porfeydd	<i>Dianthus armeria</i>
Crwynllys Cymreig	<i>Gentianella amarella ssp. occidentalis (uliginosa)</i>
Effros	<i>Euphrasia rivularis</i>
Tegeirian y Broga	<i>Coeloglossum viride</i>
Cronnell	<i>Trollius europaeus</i>
Tegeirian Pêr y Rhos	<i>Gymnadenia borealis</i>
Tegeirian Llydanwyrdd Bach	<i>Platanthera bifolia</i>

\*Rhywogaethau o flaenoriaeth leol

Tegeirian Pêr y Gors	<i>Gymnadenia densiflora</i>
Brymlys	<i>Mentha pulegium</i>
Helys Pigog	<i>Salsola kali subsp. kali</i>
Murwyll Arfor	<i>Matthiola sinuata</i>
Gludlys Amryliw	<i>Silene gallica</i>
Cnwp-fwsogl Corn Carw	<i>Lycopodium clavatum</i>
Cegiden Bibellaidd	<i>Oenanthe fistulosa</i>
Ffacbysen Chwerw	<i>Vicia orobus</i>
Cytwf	<i>Monotropa hypopitys</i>
<b>Ffwng</b>	
Boled Tagellau Aur	<i>Phylloporus pelletieri</i>
Menyg Cyll	<i>Hypocreopsis rhododendri</i>
Madarch y Moresg	<i>Hohenbuehelia culmicola</i>
Ffwng Mêl y Gors	<i>Armillaria ectypa</i>
Tafod Daear Bach Melynwyrd	<i>Microglossum olivaceum</i>
Ffwng Cwrel Dulas	<i>Clavaria zollingeri</i>
Ffwng Draenog Gwlanog	<i>Phellodon tomentosus</i>
<b>Pryfed – chwilod (Coleoptera)</b>	
Chwilen Deigr y Clogwyn	<i>Cylindera germanica</i>
Chwilen Ddaear y Groes	<i>Panagaeus cruxmajor</i>
Chwilen Blymio Leiaf	<i>Bidessus minutissimus</i>
Chwilen Grwydr Newbery	<i>Thinobius newberyi</i>
Chwilen Blymio	<i>Hydroporus rufifrons</i>
Chwilen ddaear pedwar smotyn brin	<i>Bembidion</i>
Chwilen Olew Fioled	<i>Meloe violaceus</i>
Chwilen y Draethlin*	<i>Eurynebria complanata</i>
<b>Pryfed – îar bach yr haf</b>	
Brithribin Brown	<i>Thecla betulae</i>
Gwibiwr Llwyd	<i>Erynnis tages</i>
Gweirlöyn Llwyd	<i>Hipparchia semele</i>
Gwibiwr Brith	<i>Pyrgus malvae</i>
Britheg y Gors	<i>Euphydryas aurinia</i>
Glesyn Bach	<i>Cupido minimus</i>
Gweirlöyn Bach y Waun	<i>Coenonympha pamphilus</i>
Britheg Berlog Fach	<i>Boloria selene</i>

Gweirlöyn y Cloddiau	<i>Lasiommata megera</i>
Brithribin Wen	<i>Satyrion w-album</i>
<b>Pryfed - hymenopteran</b>	
Cardwenynen lwydfrown	<i>Bombus humilis</i>
Gwenynen gorniog	<i>Eucera longicornis</i>
Cardwenynen y Mwsogl	<i>Bombus muscorum</i>
Cardwenynen Goesgoch	<i>Bombus ruderarius</i>
Cacynen Gynffon Ruddem	<i>Chrysis fulgida</i>
Cardwenynen Feinlais	<i>Bombus sylvarum</i>
<b>Pryfed – cylionyn Mai (Ephemeroptera)</b>	
Haearnlas	<i>Baetis niger</i>
<b>Pryfed – gwyfyn</b>	
Llwyd Gloyw	<i>Stilbia anomala</i>
Carplog Awst	<i>Ennomos quercinaria</i>
Gwladwr yr Hydref	<i>Eugnorisma glareosa</i>
Castan Leiniog	<i>Agrochola lychnidis</i>
Gwyfyn Gwythien Goch	<i>Timandra comae</i>
Rhisglyn Brith	<i>Lycia hirtaria</i>
Gwyfyn y Banadl	<i>Ceramica pisi</i>
Castan Smotyn Brown	<i>Agrochola litura</i>
Ermin Llwydfelyn	<i>Spilosoma lutea</i>
Melyn yr Onnen	<i>Atethmia centrargo</i>
Teigr y Benfelen	<i>Tyria jacobaeae</i>
Clustwyfyn Cilcantog	<i>Celaena leucostigma</i>
Pali Tywyll	<i>Mniotype adusta</i>
Brychan y Wermod	<i>Pelurga comitata</i>
Brychan Deusmotiog Tywyll	<i>Xanthorhoe ferrugata</i>
Gwyfyn Dotiog	<i>Melanchnra persicariae</i>
Dart Deunod	<i>Graphiphora augur</i>
Brithyn Llwydolau	<i>Apamea remissa</i>
Carplog Tywyll	<i>Ennomos fuscantaria</i>
Clustwyfyn Llygeidiog	<i>Amphipoea oculatea</i>
Rhwyll Bluog	<i>Tholera decimalis</i>
Castan Grech	<i>Agrochola helvola</i>
Coediwr	<i>Adscita statices</i>



Brychan y Friwydd	<i>Epirrhoe galiata</i>
Teigr yr Ardd	<i>Arctia caja</i>
Chwimwyfyn Rhithiol	<i>Hepialus humuli</i>
Gwregys y Gwair	<i>Perizoma albulata</i>
Cilgant Brych	<i>Allophyes oxyacanthae</i>
Bidog Llwyd	<i>Acronicta psi</i>
Brychan Llwyd y Mynydd	<i>Entephria caesiata</i>
Clai'r Rhos	<i>Xestia agathina</i>
Rhwyl y Crawcwellt	<i>Tholera cespitis</i>
Bidog y Tafol	<i>Acronicta rumicis</i>
Gwaswyfyn	<i>Malacosoma neustria</i>
Gwelltwyfyn Mawr	<i>Rhizedra lutosa</i>
Seffyr Delltog	<i>Chiasmia clathrata</i>
Gwargwlwm Bach	<i>Brachylomia viminalis</i>
Gwladwr Brith	<i>Caradrina morpheus</i>
Ôl-adain Lyglwyd	<i>Amphipyra tragopoginis</i>
Ton Arfor	<i>Scopula marginepunctata</i>
Gwalchwyfyn Gwenydaidd Ymyl Gul	<i>Hemaris tityus</i>
Clai'r Waun	<i>Xestia castanea</i>
Bachadain y Derw	<i>Watsonalla binaria</i>
Tant y Derw	<i>Cymatophorina diluta</i>
Brychan Lletraws	<i>Orthonama vittata</i>
Wylun Gwelw	<i>Trichiura crataegi</i>
Crynwr Llychlyd	<i>Orthosia gracilis</i>
Brychan Hardd y Calch	<i>Melanthia procellata</i>
Corrach Gwridog	<i>Litoligia literosa</i>
Gwladwr Gwridog	<i>Hydraecia micacea</i>
Llwyd Llyfn	<i>Hoplodrina blanda</i>
Melyn Penfelyn	<i>Cirrhia icteritia</i>
Carpiog Medi	<i>Ennomos erosaria</i>
Rhesen Lydan Dywyll	<i>Scotopteryx chenopodiata</i>
Gwensgod Gwar Rhesog	<i>Leucania comma</i>
Ffenics Bach	<i>Ecliptopera silaceata</i>
Smotyn Sgwâr Bach	<i>Diarsia rubi</i>
Cwcwll Bwaog	<i>Asteroscopus sphinx</i>

Rhesen y Banadl	<i>Chesias legatella</i>
Seffyr y Ffyrch	<i>Macaria wauaria</i>
Ermin Gwyn	<i>Spilosoma lubricipeda</i>
Brychan Smotiau Gwyn	<i>Anania funebris</i>
<b>Pryfed – gwir gleren (Diptera)</b>	
Pryf Llofrudd	<i>Asilus crabroniformis</i>
Pryf Pigfain Arian y Gogledd	<i>Spiriverpa lunulata</i>
Pryf Teiliwr Melyn y De	<i>Lipsothrix nervosa</i>
<b>Corryn (Araneae)</b>	
Pry Cop Sidanaidd	<i>Phycosoma inornatum</i>
<b>Cen</b>	
Bacidia incompta	<i>Bacidia incompta</i>
Buellia hyperbolica	<i>Buellia hyperbolica</i>
Caloplaca herbidella	<i>Caloplaca herbidella</i>
Collema fragile	<i>Collema fragile</i>
Collema fragrans	<i>Collema fragrans</i>
Graphina pauciloculata	<i>Graphina pauciloculata</i>
Lecanographa amylacea	<i>Lecanographa amylacea</i>
Lecanora sublivescens	<i>Lecanora sublivescens</i>
Casgliadau Lobararia	<i>Lobararia</i>
Casgliadau Metallophyte	
Parmelinopsis horrescens	<i>Parmelinopsis horrescens</i>
Rinodina isidioides	<i>Rinodina isidioides</i>
Schismatomma graphidioides	<i>Schismatomma graphidioides</i>
Usnea articulata	<i>Usnea articulata</i>
Brig-far Flodeuog	<i>Usnea florida</i>
<b>Llyisiau'r Afu</b>	
Llyisiau'r afu petalaidd	<i>Petalophyllum ralfsii</i>
Llyisiau'r afu gwylaeth y	<i>Pallavicinia lyellii</i>
<b>Mamal morol</b>	
Dolffin Trwyn Potel	<i>Tursiops truncatus</i>
Dolffin Cyffredin	<i>Delphinus delphis</i>
Llamhidydd	<i>Phocoena phocoena</i>
Dolffin Risso	<i>Grampus griseus</i>

Morfil Pengrwn	<i>Globicephala melas (melaena)</i>
<b>Molwsg</b>	
Misglen Berlog yr Afon	<i>Margaritifera margaritifera</i>
Malwen Droellog Geg Gul	<i>Vertigo angustior</i>
<b>Mwsogl (Bryophytes)</b>	
Crafancfwsogl y Mynawyd	<i>Ditrichum subulatum</i>
Edeufwsogl y Baltig	<i>Bryum marratii</i>
Daltonia Gwyddelig	<i>Daltonia splachnoides</i>
Mwsogl Plwm	<i>Ditrichum plumbicola</i>
Mwsogl Cynffon Gwiwer Fechan	<i>Habrodon perpusillus</i>
Mwsogl afon aml-ffrwythog	<i>Cryphaea lamyana</i>
Pocedfwsogl Portiwgal	<i>Fissidens curvatus</i>
Mwsogl Minfoel Dail Atblyg	<i>Weissia squarrosa</i>
Mwsogl Copr Dail Tafod	<i>Scopelophila cataractae</i>
<b>Ymlusgiad</b>	
Gwiber	<i>Vipera berus</i>
Madfall	<i>Zootoca vivipara</i>
Neidr y Gwair	<i>Natrix natrix</i>
Neidr Ddefaid	<i>Anguis fragilis</i>
<b>Mamal Daearol</b>	
Ysgyfarnog	<i>Lepus europaeus</i>
Ystlum Hirglust	<i>Plecotus auritus</i>
Gwiwer Goch	<i>Sciurus vulgaris</i>
Dyfrgi	<i>Lutra lutra</i>
Llygoden Bengron y Dŵr	<i>Arvicola amphibius</i>
Ystlum Pedol Mwyaf	<i>Rhinolophus ferrumequinum</i>
Llygoden yr Yd	<i>Micromys minutus</i>
Pathew'r Cyll	<i>Muscardinus avellanarius</i>
Ystlum Pedol Lleiaf	<i>Rhinolophus hipposideros</i>
Ystlum Mawr	<i>Nyctalus noctula</i>
Bele'r Coed	<i>Martes martes</i>

Ystlum Lleiaf	<i>Pipistrellus pipistrellus</i>
Ffwlbart	<i>Mustela putorius</i>
Ystlum Lleiaf Meinlais	<i>Pipistrellus pygmaeus</i>
Draenog	<i>Erinaceus europaeus</i>
Ystlum Du	<i>Barbastella barbastellus</i>
<b>Pysgod</b>	
Herlyn	<i>Alosa alosa</i>
Eog	<i>Salmo salar</i>
Brithyll	<i>Salmo trutta</i>
Llysywen	<i>Anguilla anguilla</i>
Llysywen Bendoll yr Afon	<i>Lampetra fluviatilis</i>
Llysywen Bendoll y Môr	<i>Petromyzon marinus</i>
<b>Rhywogaethau Morol</b>	
Heulgi	<i>Cetorhinus maximus</i>
Penfras	<i>Gadus morhua</i>
Cegddu	<i>Merluccius merluccius</i>
Cragen Adain	<i>Atrina fragilis</i>
Ysgadenyn	<i>Clupea harengus</i>
Marchfacrell	<i>Trachurus trachurus</i>
Crwban Môr Cefn-lledr	<i>Dermochelys coriacea</i>
Llymrien Leiaf	<i>Ammodytes marinus</i>
Honos	<i>Molva molva</i>
Crwban Môr Pendew	<i>Caretta caretta</i>
Macrell	<i>Scomber scombrus</i>
Lledn	<i>Pleuronectes platessa</i>
Corgi Môr	<i>Lamna nasus</i>
Cythraul y Môr	<i>Lophius piscatorius</i>
Ci Glas	<i>Galeorhinus galeus</i>
Gwyniad Môr	<i>Merlangius merlangus</i>

## Atodiad 3 - Prosiectau partner (2020)

Prosiect	Cyllidwr	Prif Sefydliad	Ffocws Cynefin/ Rhywogaethau
Prosiect Bioamrywiaeth Gwlyptiroedd y Mileniwm	Cronfa Bioamrywiaeth DC/WW	Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir	Gwella rheolaeth cynefinoedd yn gynaliadwy. Rheoli rhywogaethau estron goresgynnol - <i>Crassula helmsii</i> gan ddefnyddio gwiddonyn microsgopig o'r enw <i>Acculus Crassulae</i>
Cysylltu'r Dreigiau:	Cronfa Dreftadaeth y Loteri	Ymddiriedolaeth Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid	Adfer poblogaethau a chynefinoedd <b>ymlusgiaid ac amffibiaid</b> yn Ne Cymru
Healthy Reds	Cronfa Dreftadaeth y Loteri	WTSWW	<b>gwiwerod coch</b> yng nghanolbarth Cymru
Prosiect Coedwigoedd Glaw	Cronfa LIFE yr UE.	APC Eryri (RSPB ac YG yn Sir Gaerfyrddin)	<b>Coetiroedd derw'r ucheldir</b>
Dynamic Dunescapes	Cyllid LIFE yr UE a Chronfa Dreftadaeth y Loteri	Plantlife, CNC	<b>twyni tywod</b> gan gynnwys twyni Bae Caerfyrddin
Prosiect Twyni Byw	Cyllid LIFE yr UE	CNC	Twyni tywod- gan gynnwys twyni Bae Caerfyrddin
Adfywio Cyforgorsydd Cymru	Cyllid LIFE yr UE	CNC	<b>Cyforgorsydd yr iseldir</b> Gwarchodfa Natur Genedlaethol Carmel yn Sir Gaerfyrddin.
Cynllun Rheoli Cynaliadwy Mawnogydd Cymru	Cynllun Rheoli Cynaliadwy LIC (cyllid yr UE)	APC Eryri	<b>Cyforgorsydd yr iseldir</b> Parc gwledig Llyn Llech Owain /Prosiect Corsydd Sir Gâr
Prosiect LAND lleol	Cynllun Rheoli Cynaliadwy LIC (cyllid yr UE)	Cymdeithas Gymunedol Talylychau	gwella rheolaeth a bioamrywiaeth cynefinoedd yn lleol
Cydweithio i greu porfeydd rhos cydnerth	Ariennir gan LIC/UE	Butterfly Conservation	<b>Britheg y gors a glaswelltir corsiog</b>
Iechyd Gwyrdd a Mynediad Gorllewin Cymru	Ariennir gan LIC/UE	Coed Lleol	Prosiect partneriaeth i ymchwilio i ddarpariaeth <b>lleoedd gwyrdd</b>

Prosiect	Cyllidwr	Prif Sefydliad	Ffocws Cynefin/ Rhywogaethau
Magnificent Meadows/Gweir gloddiau Gwych	Ariennir gan LIC/Plantlife/Ymdd. Genedlaethol	Plantlife Cymru	Prosiect partneriaeth ac ymgysylltu â'r gymuned i adfer <b>gweirgloddiau</b>
Voice of the Woodlands/Llais y Goedwig	Ariennir gan LIC/UE	Llais y Goedwig	Ffurio cysylltiadau newydd rhwng grwpiau <b>coetir</b> a thirfeddianwyr mewn sectorau cyhoeddus a phreifat ar draws Cymru wrth atgyfnerthu'r cysylltiadau presennol
Partneriaethau Natur Lleol Cymru	Ariennir gan LIC/UE	CGGC	Prosiect partneriaeth gyda'r nod o wneud gwahaniaeth cynaliadwy, tymor hir i <b>adfer natur</b> trwy weithredu cydlynol a chydweithredol
Pryfed Peillio a Dyfroedd Croyw	Ariennir gan LIC/UE	Buglife Cymru	Nod hyn yw datblygu prosiectau a phartneriaethau newydd i gyflwyno dwy thema strategol yng Nghymru: <b>pryfed peillio</b> ac <b>anifeiliaid di-asgwrn-cefn dŵr croyw</b>
Back from the Brink Cymru	Ariennir gan LIC/UE	dan arweiniad Plantlife ar ran partneriaeth o rywogaethau cyrff anllywodraethol	Prosiect i sefydlu a datblygu prosiect partneriaeth i adennill nifer o <b>rywogaethau dan fgythiad</b> ar draws Cymru
Rhwydwaith Ecolegol Gwydn Cymru	Ariennir gan LIC/UE	TSWW	Edrych ar reoli <b>Rhywogaethau Estron Goresgynol</b> ledled Cymru
Caru Natur Cymru	Ariennir gan LIC/UE	Yr Ardd Fotaneg Genedlaethol	Prosiect ledled Cymru sy'n defnyddio ymgysylltu â'r cyhoedd i helpu pobl i gysylltu â'u hamgylchedd naturiol, gan wella <b>'isadeiledd gwyrdd'</b> lle gall pobl elwa fwyaf arno
Cysylltu Seilwaith Gwyrdd – De Orllewin	Ariennir gan LIC/UE	dan arweiniad NPT ond yn cynnwys CCS a CSC a Chwmaman	Prosiect partneriaeth i gyflwyno <b>'seilwaith gwyrdd'</b> er lles cymunedau lleol a'u hamgylchedd naturiol
Caru Cymru	Ariennir gan LIC/UE	KWT	Prosiect ledled Cymru i edrych ar ansawdd amgylcheddol lleol, ymgysylltu â phobl leol i wella'u hamgylchedd lleol a helpu bywyd gwylt
Y Ddôl Fawr, Parc yr Esgob, Abergwili	Ariennir gan LIC/UE a Threth Dirlenwi Cyllid treth dirlenwi	Ymddiriedolaeth Drws i'r Dyffryn	Yn cynnwys gwell rheolaeth o'i 9 erw o gynefin <b>dôl gorlifdir</b> dyffryn Tywi
Gwarchod Cymunedau Carmel		WTSWW	Gwella a gwneud Gwarchodfa Natur Genedlaethol Carmel yn fwy cydnorth. Er mwyn gwella cyflwr y cynefin, galluogi cymunedau bywyd gwylt i ffynnu, gan alluogi cyfleoedd i gymunedau lleol fwynhau a chymryd rhan

## GEIRFA

**Adnoddau naturiol:** Pob organeb fyw (ac eithrio pobl) ac elfennau a deunyddiau anfyw yr amgylchedd naturiol; ein hadnoddau daearegol, aer, dŵr, pridd, llanw, gwynt a haul.

**Amlder:** Nifer yr unigolion mewn ardal benodol.

**Amrywiaeth genetig:** Amrywiaeth y deunydd genetig o fewn rhywogaeth. Mae mwy o amrywiaeth genetig yn golygu bod rhywogaeth yn gallu addasu'n well i newid amgylcheddol ac felly bod ganddi fwy o gyfle i oroesi.

**Atebion yn seiliedig ar natur:** atebion sy'n cael eu hysbrydoli neu eu hategu gan natur, sy'n gost-ffeithiol, ac ar yr un pryd yn darparu manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ac yn helpu i ddatblygu cydnerthedd.

**Bioamrywiaeth:** Yr amrywiaeth o fywyd sydd ar y ddaear. Mae'n cynnwys pob rhywogaeth o blanhigion ac anifeiliaid, eu helaethrwydd a'u hamrywiaeth genetig.

**Cynefin:** Y man neu'r math o safle lle mae organeb neu boblogaeth yn digwydd yn naturiol.

**Cysylltedd cynefinoedd:** Sut mae darnau o gynefin wedi'u cysylltu â'i gilydd i ffurfio rhwydwaith o gynefinoedd cysylltiedig sy'n caniatáu i rywogaethau symud o'r naill ardal i'r llall.

**Darnio cynefinoedd:** Cynefinoedd yn cael eu gwahanu'n ardaloedd llai yn sgil newid yn y ffordd y caiff tir ei ddefnyddio a'i ddatblygu.

**Deunydd genetig:** Unrhyw ddeunydd sy'n deillio o blanhigion, anifeiliaid, o darddiad microbaidd neu o darddiad arall sy'n cynnwys unedau swyddogaethol etifeddeg.

**Dosbarthiad:** Ardal ddaearyddol lle mae unigolion rhywogaeth i'w cael.

**Ecosystem gydnerth/cydnerthedd ecosystemau:** Ecosystem gydnerth yw un sy'n iach ac yn gweithio mewn ffordd sy'n gallu ymdopi â'r pwysau a'r gofynion a roddir arni, ac sy'n gallu darparu manteision yn y tymor hir i ddiwallu anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y presennol. Mae pedair prif briodoledd yn perthyn i gydnerthedd: cynyddu amrywiaeth; ehangu ecosystemau drwy leihau darnio; cynyddu'r cysylltedd o fewn ecosystemau a rhyngddynt; gwella cyflwr. Bioamrywiaeth yw sylfaen y

cydnerthedd hwn.

**Ecosystem:** Uned weithredol sy'n cynnwys organebau byw (planhigion, anifeiliaid a micro-organebau) ynghyd â'u hamgylchedd anfyw (aer, dŵr, mwynau a phridd) a'r holl rhyngweithio amrywiol a chymhleth sy'n digwydd rhyngddynt. Gallant weithredu ar lawer o wahanol raddfeydd.

**Gwasanaethau/manteision ecosystem:** Y manteision y bydd pobl yn eu cael gan ecosystem. Gellir eu rhannu'n 4 categori:

- Gwasanaethau cefnogi y mae eu hangen i gynhyrchu holl wasanaethau ecosystemau eraill, megis ffurfio pridd, cylchu maetholion a chynhyrchu sylfaenol.
- Gwasanaethau cyflenwi megis cnydau; pysgod; coed a deunydd genetig.
- Gwasanaethau rheoleiddio megis puro dŵr; rheoli llifogydd; dal a storio carbon a pheillio.
- Gwasanaethau diwylliannol sy'n darparu ffynhonnell esthetig, ysbrydol, crefyddol, adloniadol neu wyddonol i gyfoethogi bywyd

**Gwerth cynhenid:** Gwerth adnoddau naturiol e.e. ecosystemau, cynefinoedd a rhywogaethau, er eu mwyn eu hunain.

**Natur:** Ein rhywogaethau a'u cynefinoedd, eu hamrywiaeth a'u helaethrwydd.

**Poblogaeth:** Grŵp o unigolion o'r un rhywogaeth sy'n rhyngweithio â'i gilydd ac sy'n byw mewn ardal benodol.

**Rhywogaethau Estron Goresgynnol:** Organeb (planhigion, anifail, ffwng, neu facteriw) nad yw'n frodorol ac sy'n amharu ar ein heconomi, ein hamgylchedd neu'n hiechyd.

**Rhywogaethau:** Grŵp o organebau sy'n gallu bridio'n llwyddiannus gyda'i gilydd gan gynhyrchu epil iach sy'n gallu rhyngfridio.

**Seilwaith gwyrdd:** Rhwydwaith o fannau gwyrdd mewn ardaloedd trefol a gwledig megis gerddi preifat, rhandiroedd, coed stryd, lleiniau glas a gwrychoedd sy'n darparu manteision i ecosystemau ac yn cyfrannu at lesiant pobl.

**Poblogaeth:** Grŵp o unigolion o'r un rhywogaeth sy'n rhyngweithio â'i gilydd ac sy'n byw mewn ardal benodol.



Bioamrywiaeth@sirgar.gov.uk | [www.sirgar.llyw.cymru/bioamrywiaeth](http://www.sirgar.llyw.cymru/bioamrywiaeth)